

Ysgol Bro Alun
Rhodfa Delamere
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG
Ffôn: 01978 269580
Ffacs: 01978 269589



Ysgol Bro Alun
Delamere Avenue
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG
Tel: 01978 269580
Fax: 01978 269589

YSGOL BRO ALUN

Mr Osian Jones BA
Pennaeth Head Teacher

E-bost/E-mail: mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk

Gorffennaf 5ed 2018

Annwyl rieni,

Fel y gwyddoch, mae'r ysgol wedi bod mewn sefyllfa dros y blynyddoedd diwethaf ble mae nifer o rieni wedi methu cael lle i'w plant yn nosbarthiadau Meithrin a Derbyn yr ysgol.

Eleni, daeth tro ar fyd gyda'r Awdurdod Addysg Lleol yn gofyn i ni gymryd mwy na'r 30 arferol o ddisgyblion i mewn i'r dosbarthiadau Meithrin a Derbyn ym mis Medi, gan olygu y bydd 42 o blant yn dod i'r Meithrin a 41 i'r Derbyn. Rydym wedi bod yn brysur dros yr wythnosau diwethaf yn rhoi pethau mewn lle ar gyfer cymryd y nifer ychwanegol ac yn dod tuag at ddiwedd y broses erbyn hyn.

Tra bod hwn yn fesur dros dro ar hyn o bryd, mae gan Gyngor Wrexham gynlluniau i gynyddu capasati'r ysgol i o 210 (+30 Meithrin) i 315 (+45 Meithrin) yn y tymor hir. Yn ran o'r cynlluniau yma, mae rhoi estyniad ar yr ysgol, hyn yn ddibynol ar gais llwyddiannus am gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae yna broses statudol i'w dilyn cyn medru cynyddu capasati ysgol yn barhaol ac ar Orffennaf y 10fed, bydd cais yn cael ei roi gerbron Bwrdd Gweithredol CBSW am yr hawl i ymgynghori ar y cynlluniau uchod. Os caiff y cais yma ei basio, yna bydd cyfnod o ymgynghori yn digwydd. Yn ystod y cyfnod yma, bydd cyfle i ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni yr ysgol gyflwyno eu barn am y cynlluniau.

Byddwn yn eich diweddarau ac unrhyw wybodaeth berthnasol fel bo'r angen, yn enwedig o ran rhoi cyfle i chi roi eich barn fel rhan o'r ymgynghoriad ac unrhyw ddiweddariad am estyniad os yr aiff yn ei flaen.

Diolch yn fawr,

Osian Jones ac Awel Watson-Smyth